

Tîm Adnoddau Teuluol Torfaen

Cyflwyniad

Mae Tîm Adnoddau Teuluol Torfaen yn darparu amrywiaeth o wasanaethau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae'r gwasanaeth yn derbyn atgyfeiriadau dim ond oddi wrth Wasanaethau Cymdeithasol Torfaen ac nid ydyn nhw'n gallu derbyn atgyfeiriadau'n uniongyrchol oddi wrth y cyhoedd. Yn y Ganolfan Deuluol ein bwriad yw darparu amgylchedd cadarnhaol a chefnogol. Rydym am i bawb sy'n defnyddio'r ganolfan deimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu parchu.

Cymorth i deuluoedd

Mae yna Bum Edefyn sy'n rhan o'r gwaith a wneir gan y Tîm Adnoddau Teuluol:

- Cyswllt Teuluol sy'n cael ei gyfeirio ato weithiau fel Amser i'r Teulu.
- Asesiadau Gallu Rhianta
- Gwaith Uniongyrchol
- Cyd-gynadledda Teuluol
- Gofalwyr Ifanc

Cyswllt Teuluol (sy'n cael ei gyfeirio ato weithiau fel Amser i'r Teulu)

Gall cyswllt teuluol ddigwydd yn y ganolfan deuluol neu yn y gymuned, yn dibynnu ar anghenion y plentyn neu'r aelod o'r teulu. Bydd Cynorthwydd Cefnogaeth Deuluol fel arfer yn goruchwyllo cyswllt teuluol er mwyn sicrhau diogelwch a lles y plentyn neu berson ifanc, ond hefyd cynorthwyo i sicrhau bod y profiad yn un o ansawdd i'r plentyn a'r teulu. Bydd y cynorthwydd cefnogaeth

deuluol yn cofnodi eu harsylwadau a bydd y rhain yn cael eu rhannu â Gweithiwr Cymdeithasol y plentyn.

Mae pob cyswllt teuluol yn unigol ac wedi ei addasu i ddiwallu anghenion y plentyn/person ifanc; os oes gennych chi unrhyw geisiadau/gofynion arbennig, fe wnawn ein gorau i gael hyd i ffyrdd o'ch helpu.

Os byddwch chi'n cael unrhyw drafferth mynychu cyswllt, fel bod yn hwyr yn cyrraedd neu'n methu mynd, cysylltwch â'r Ganolfan Deuluol os gwelwch yn dda er mwyn lleihau pryder eich plentyn.

Asesiadau Gallu Rhianta

Mae asesiad gallu rhianta'n aml yn elfen allweddol o achosion y Llys Teuluol, gall Gweithiwr Cymdeithasol plentyn ofyn amdany'n nhw hefyd. Weithiau, mae angen cwblhau asesiad felly cyn geni plentyn.

Gwaith Uniongyrchol

Mae amrywiaeth o waith uniongyrchol yn digwydd yn y ganolfan deuluol gydag unigolion a grwpiau, gan gynnwys: gwaith stori bywyd, cefnogaeth rhianta gan gynnwys y Rhaglen Blynnyddoedd Anhygoel, gwaith dymuniadau a theimladau a chadw'n ddiogel.

Cyd-gynadledda Teuluol

Mae gwreiddiau Cynadleddau Teuluol yn Seland Newydd ble ddaeth Llwythau Maori ynghyd i ddatrys problemau gyda'i gilydd. Nod Cyd-gynadledda Teuluol yw grymuso

teuluoedd a'u galluogi i fod yn rhan o'r broses benderfynu ar ran plentyn.

Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc

Mae gan Ofalwyr Ifanc hawl o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 i gael asesiad o angen ac, os nodir anghenion cymwys, hawl i gael cefnogaeth.

Yn 2021, Torfaen oedd yr ail awdurdod lleol yng Nghymru i lansio'r Cynllun Cerdyn Gofalwyr Ifanc. Nod y cynllun cerdyn a ariennir gan Lywodraeth Cymru yw helpu Gofalwyr Ifanc yng Nghymru i gael eu hadnabod a'u dilysu, a derbyn y gefnogaeth y maen nhw'n ei haeddu.

Mae gan y gwasanaeth Gofalwyr Ifanc yn Nhorfaen nifer o bartneriaid allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys Gwasanaeth Ieuentid Torfaen, Ymddiriedolaeth y Gofalwyr, Datblygiad Chwaraeon Torfaen, Fforwm Ieuentid Pont-y-pŵl a chanolfan seibiant gofalwyr ifanc Honeypot, ac maen nhw wrthi'n datblygu partneriaeth gyda Gwasanaeth Chwarae Torfaen

Cynhelir sesiynau Gofalwyr Ifanc Torfaen yn Nhŷ Ashleigh (trwy Wasanaeth Ieuentid Torfaen), Hwb Gofalwyr Gwent, Pont-y-pŵl, ac maen nhw hefyd yn defnyddio'r ganolfan deuluol yn Wesley Street (yn y nos ac ar benwythnosau)

Amserau agor

Rydym ar agor

Dydd Llun	9.00am - 5.30pm
Dydd Mawrth	9.00am - 5.30pm
Dydd Mercher	9.00am - 5.30pm
Dydd Iau	9.00am - 5.30pm
Dydd Gwener	9.00am - 5.00pm
Dydd Sadwrn	9.00am - 1pm

Pa gyfleusterau sydd yn y Ganolfan?

- Mynediad i'r anabl
- Cyfleusterau ymolchi a newid cewynnau i fabanod
- Cegin
- Teganau, creonau, paent a digon o bapur
- Man chwarae awyr agored
- Bygis

Ffonau i gysylltu â gweithwyr cymdeithasol a phobl broffesiynol eraill (os oes angen)

Os ydych chi, ar unrhyw adeg, yn teimlo bod yna rhywbeth y gallem ei wneud i wella'ch ymweliad â'r Ganolfan Deuluol, dywedwch wrthym ni. Mae croeso i awgrymiadau ar bob adeg.

Cwynion

Os oes angen gwneud cwyn arnoch chi, siaradwch ag aelod o'n staff a fydd yn rhoi ffurflen gŵyn i chi.

Ein manylion cyswllt

Os oes angen mwy o help arnoch chi, cysylltwch â ni.

Ffôn: 01633 648112/648113

E-bost:

socialcareCallTorfaen@torfaen.gov.uk

Ein cyfeiriad

Y Ganolfan Adnoddau Teuluol
Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Thai
Torfaen
Wesley Street
Cwmbrân
NP44 3LX

*Mae'r daflen yma ar gael mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais.
Cysylltwch â ni i drefnu hyn.*

